Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Creu flog amgylcheddol – a hoffai eich dysgwyr fod yn ddylanwadwyr natur?

| | |
|---|---|
| **Hyd y gweithgaredd** | **Bydd angen amser ar eich dysgwyr i gynllunio, ymchwilio, ffilmio a golygu eu flog amgylcheddol dros gyfnod o amser. Dylech neilltuo cwpl o oriau ar gyfer pob rhan.** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddod yn 'ddylanwadwyr natur', gan greu flog amgylcheddol i rannu eu barn ar bwnc amgylcheddol penodol, galw eraill i weithredu neu i ddogfennu newidiadau ym myd natur.

## Ddim yn gwybod ble i ddechrau?

Mae flog amgylcheddol yn fideo personol sy'n cael ei ffilmio gan un neu fwy o bobl gan siarad am yr amgylchedd naturiol. Gellir ffilmio flog amgylcheddol gyda chamera fideo neu'r camera ar ffôn clyfar neu dabled.

Mae nodi meddyliau gydag ysgrifbin neu liniadur yn ffordd brofedig o gadw dyddiadur ond mae cadw flog amgylcheddol yn rhoi cyfle i ddysgwyr fynegi eu hunain, cysylltu a rhannu eu meddyliau ag eraill yn rhithwir. Mae cadw cofnod yn caniatáu i'r defnyddiwr/defnyddwyr ddogfennu'r hyn y maent wedi'i weld, cymryd nodiadau ar newidiadau tymhorol a chysylltu eu harsylwadau â'u meddyliau a'u syniadau mewnol. Mae creu flog amgylcheddol yn gyfle i gasglu safbwyntiau a theimladau personol a gellir eu creu fel unigolyn neu mewn grŵp. Nid oes rhaid i'ch dysgwyr fynd yn bell, gellir cwblhau flog amgylcheddol yn eu gerddi eu hunain neu le gwyrdd/glas lleol fel gwaith cartref, ar dir eich lleoliad, parc lleol, traeth neu goetir. Mae flog amgylcheddol yn gyfrwng gweithredol ac uniongyrchol gyda delwedd, symudiad a sain, ac mae'n cynnig cyfle i ddysgwyr ymgysylltu â'u synhwyrau, cysylltu â natur a dod yn ddylanwadwyr natur.

Gall pynciau fod mor amrywiol â'r newid i dymor yr hydref neu gofnod o fywyd gwyllt mewn pwll dros wythnos. Beth bynnag fo'r pwnc, mae'r flog amgylcheddol gorau yn mynd â gwylwyr ar daith bersonol gyda'r sawl sy'n creu'r ffilm, wrth iddynt gofnodi eu hymatebion a'u meddyliau yn y fan a'r lle, a'u llwyddiannau a'u methiannau wrth greu'r ffilm. Mae dilysrwydd a chreadigrwydd yn bwysicach na chreu flog sy'n deilwng o Enwebiad Oscar ar gyfer y golygu gorau ar fideo.

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei holl waith yw cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella lles Cymru, ac i ddarparu dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Celfyddydau Mynegiannol | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
|---|---|---|
| • **Beth sy'n bwysig** – Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol. | • **Beth sy'n bwysig** – Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol. | • **Beth sy'n bwysig** – Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. |

### Cwricwlwm i Gymru

| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Celfyddydau Mynegiannol | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
|---|---|---|
| • **Beth sy'n bwysig –** Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. | • **Beth sy'n bwysig –** Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.<br>• **Beth sy'n bwysig –** Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg. | |

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Mae cwblhau'r gweithgaredd hwn yn darparu cyfleoedd i gyflawni llinynnau canlynol y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

| Dinasyddiaeth | Rhyngweithio a chydweithio | Cynhyrchu |
|---|---|---|
| • Hunaniaeth, delwedd ac enw da.<br>• Ymddygiad ar-lein a bwlio ar-lein. | • Cyfathrebu<br>• Cydweithredu<br>• Cyfnewid a rhannu gwybodaeth | • Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol.<br>• Creu cynnwys digidol.<br>• Gwerthuso a gwella cynnwys digidol. |

## Amcanion

- Mae'r dysgwyr yn cydweithio i greu flog amgylcheddol sy'n mynegi eu meddyliau a'u syniadau wrth ddatblygu eu sgiliau technoleg.
- Mae dysgwyr yn delweddu ac yn ennill dealltwriaeth o brosesau naturiol a/neu gysyniadau cylch bywyd.
- Mae dysgwyr yn cymryd perchnogaeth o'u flog amgylcheddol, mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol, o fewn grŵp bach, i ddatrys problemau a meddwl yn greadigol wrth iddynt weithio drwy'r prosesau ffilmio a golygu.
- Mae dysgwyr yn ennill dealltwriaeth sylfaenol o yrfaoedd posibl a'r sgiliau sydd eu hangen yn y maes hwn.

## Adnoddau ac offer

Bydd angen y canlynol ar bob grŵp sy'n creu flog amgylcheddol:

- Dyfais recordio - camera fideo pwrpasol, camera ar ffôn clyfar neu dabled, gwe-gamera neu gamera bywyd gwyllt.
- Meicroffon pwrpasol (dymunol) er y bydd meicroffon camera fideo sylfaenol yn gwneud y tro. Wrth recordio, bydd meicroffonau'n codi sain fel pe baent ddwbl y pellter i ffwrdd. Gwnewch yn siŵr bod eich offer recordio mor agos ag y gall fod at y sain rydych chi am ei chofnodi.
- Meddalwedd golygu fideo fel y gall eich dysgwyr olygu eu fideo. Mae apiau am ddim yn cynnwys Video Editor (Microsoft) ac iMovie (Apple) ond mae digon o rai eraill ar gael.
- Trybedd bach neu stondin i ddal y ddyfais yn sefydlog (dymunol).

## Beth i'w wneud

### Cyn i'ch grwpiau ddechrau ffilmio:

- **Gosod y dasg a chadarnhau bod pawb yn ei deall**

Eglurwch i'ch dysgwyr eu bod yn mynd i weithio gyda'i gilydd i greu flog amgylcheddol i rannu eu meddyliau am yr amgylchedd naturiol ac am brofiadau ohono gydag eraill.

Gofynnwch i'ch dysgwyr egluro beth yw ystyr y term flog amgylcheddol. Trafodwch eu hatebion.

A all eich dysgwyr roi enghreifftiau o unrhyw flogwyr? Os yw'n bosibl, dangoswch rai enghreifftiau o flogiau i'ch dysgwyr a gofynnwch i'ch dysgwyr fyfyrio ar yr hyn y maen nhw wedi'i weld a thrafodwch eu harsylwadau.

- Beth oedd nodau'r flog ym marn eich dysgwyr?
    - Ai hysbysebu cynnyrch penodol oedd y nod? A allan nhw nodi elfennau marchnata a gynlluniwyd i dynnu eu sylw?
    - Ai addysgu'r gynulleidfa am bwnc penodol ac annog pobl i newid eu hymddygiad oedd y nod?
    - A oedd y flogwyr am ddiddanu a denu mwy o ddilynwyr?
- A yw eich dysgwyr yn credu bod y flog wedi cyflawni ei amcanion?
- Beth weithiodd yn dda? Beth na weithiodd cystal?
- A oedd gan y flogwyr bresenoldeb digidol cadarnhaol? A allen nhw fod yn fodelau rôl da i'ch dysgwyr geisio eu hefelychu?

- **Amserlenni**

Rhowch syniad i'ch dysgwyr o faint o amser fydd ganddynt i greu eu flog amgylcheddol, bydd yn eu helpu i gynllunio a dyrannu eu hamser.

- **Beth i'w ffilmio?**

Gofynnwch i'ch dysgwyr ystyried yr hyn y maen nhw am ei ddogfennu. Beth sydd o ddiddordeb iddyn nhw? A oes yna ffenomenon neu ddigwyddiad naturiol yr hoffen nhw ddysgu mwy amdano, e.e. pa fywyd gwyllt sy'n ymweld â'u lleoliad? A ydyn nhw'n mynd i archwilio cynefin newydd? A allan nhw gofnodi eu harchwiliadau? A fydd rhai rhywogaethau'n cael sylw arbennig, e.e. teulu lleol o adar y to neu wiwerod coch? Os ydyn nhw'n magu ac yn bwydo gloÿnnod byw, efallai y byddan nhw am ffilmio eu taith o fod yn lindysyn i löyn byw. A yw'r flog amgylcheddol yn ymwneud â lle penodol, e.e. arsylwadau a meddyliau ar sut mae dôl leol yn newid o'r gwanwyn i'r haf? Newidiadau mewn coed wrth iddyn nhw flaguro, blodeuo a dwyn ffrwythau? A oes gan eich dysgwyr neges sylfaenol, e.e. gofalu am natur, y maen nhw am ei chyfleu?

- **Gofynnwch i'ch dysgwyr osod amcanion CAMPUS ar gyfer eu flog amgylcheddol**

Bydd **gosod amcanion ar gyfer eu flog amgylcheddol** yn sicrhau bod gan eich dysgwyr weledigaeth o'r hyn y maen nhw am ei gyflawni, a byddan nhw hefyd yn darparu meincnod iddyn nhw werthuso eu flog amgylcheddol yn ei erbyn unwaith y byddan nhw wedi'i gwblhau. A wnaethan nhw gyflawni eu hamcanion? Os do, gwych. Os ddim – pam ddim?

Gall defnyddio'r acronym CAMPUS helpu eich dysgwyr i bennu eu hamcanion.

**C – Cyraeddadwy** - Does dim pwynt cynllunio i ffilmio coed derw yn cynhyrchu a gollwng mes os yw'r dasg yn cael ei gosod ym mis Ionawr. Efallai yr hoffen nhw gynhyrchu flog amgylcheddol ar bâr o ddolffiniaid sy'n bridio, ond efallai na fydd yn ymarferol nac yn realistig. Efallai y byddai'n well canolbwyntio eu hymdrechion ar le neu rywogaethau penodol. Byddai'n wych ffilmio coetir cyfan yn ffrwydro â blodau'r gwanwyn ond mae'n debyg y byddai'n haws arsylwi a ffilmio cornel fach.

**A – Amser wedi'i bennu** - A yw'r hyn y maen nhw wedi'i gynllunio'n gyraeddadwy yn yr amser sydd ar gael iddyn nhw? Anogwch eich dysgwyr i osod terfynau amser er mwyn cwblhau tasgau – bydd yn eu helpu i flaenoriaethu eu tasgau ac yn lleihau'r risg y byddan nhw'n cael eu llethu â gwaith.

**M – Mesuradwy** - Rydyn ni am gynyddu traffig i'n platfform 5%.

**P – Penodol** – Rydyn ni am greu flog amgylcheddol am ddyfodiad y gwanwyn yng Nghoed xyz.

**U – Uchelgeisiol** – Anogwch eich dysgwyr i ddewis pwnc a fydd yn rhoi tipyn o her iddynt.

**S – Synhwyrol** – Holl bwrpas cofnodi flog amgylcheddol yw rhannu eu meddyliau am yr amgylchedd naturiol gydag eraill, a'u profiadau ohono. Os nad yw eu cynlluniau'n cyd-fynd â hyn, yna nid yw'n berthnasol.

- **Ble i ffilmio?**

Anogwch eich dysgwyr i ddod o hyd i leoliad nad oes ganddo ormod o sŵn cefndir a rhywle na fyddan nhw'n cael eu tarfu.

Nid yw diwrnodau gwyntog yn wych ar gyfer sain. Gall sŵn gwynt swnio'n annymunol ar y recordiad. Os yw'n bosibl, dylai eich dysgwyr ddefnyddio meicroffon ategol/meicroffon radio a dylen nhw ddod o hyd i gornel lle nad oes llawer o wynt.

Mae cael ffynhonnell olau lachar y tu ôl i chi yn gwneud i chi edrych yn dywyll iawn ac os yw o'ch blaen mae'n gwneud i chi edrych yn ddisglair iawn. Anogwch eich dysgwyr i geisio ffilmio yn rhywle sydd wedi'i oleuo'n gyfartal.

Trafodwch gyda'ch dysgwyr pam y gallai sain a golwg gwael wneud i bobl roi'r gorau i wylio.

- **Ymchwilio i'w pwnc**

Os ydyn nhw'n bwriadu ffilmio trawsffurfiad coeden wrth i'r hydref gyrraedd, byddai'n help pe gallen nhw rannu rhywfaint o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i'w wneud yn brofiad addysgiadol i'w gwylwyr. Mae pawb yn gwybod bod yr hydref yn arwain at newid anhygoel mewn llawer o goed gyda dail gwyrdd iraidd yn newid i liwiau melyn, oren a choch llachar cyn disgyn a gadael boncyffion moel a changhennau noeth. Ond beth sy'n digwydd mewn gwirionedd? Pam mae coed yn colli eu dail yn yr hydref?

Unwaith y bydd eich dysgwyr wedi cytuno ar bwnc, dylen nhw ymchwilio iddo gan ddefnyddio llyfrau a gwefannau. A ydyn nhw'n ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau allweddol a fydd yn digwydd? Pryd fydd angen iddyn nhw ddechrau ffilmio i gofnodi popeth sy'n digwydd? Os ydyn nhw'n ffilmio bywyd gwyllt, pa mor bell i ffwrdd y bydd angen iddyn nhw fod i ffilmio heb aflonyddu arno? Rhowch amser i'ch dysgwyr gwblhau eu hymchwil a thrafodwch.

- **Pwy sy'n mynd i wneud beth?**

Gan weithio mewn grwpiau bach, mae'n bwysig bod gan bob aelod rôl i'w chwarae. Gall hyn gynnwys gosod yr offer ffilmio, ymgymryd â rôl cyflwynwyr o flaen camera neu gyfweld ag aelodau eraill o'r grŵp ynghylch eu meddyliau. Gofynnwch i'ch dysgwyr ystyried cryfderau pawb a dyrannu rolau yn unol â hynny.

- **Cael caniatâd**

Ble fydd y ffilmio'n digwydd? A fydd angen i'ch lleoliad/y dysgwyr ofyn am ganiatâd i ymweld a ffilmio?

Gan y gallai eich dysgwyr fod yn rhannu delweddau o bobl eraill ar-lein, dylen nhw fod yn ymwybodol o'r rheolau o ran rhannu delweddau a data. Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), efallai y bydd angen iddyn nhw ofyn am ganiatâd cyfranogwyr i ffilmio a rhannu eu flog amgylcheddol ar-lein.

- **Pwy yw'r gynulleidfa?**

Anogwch eich dysgwyr i gadw eu cynulleidfa mewn cof pan fyddan nhw'n dechrau ffilmio. A fydd yn briodol i'r oedran targed? A fydd angen egluro unrhyw allweddeiriau neu brosesau naturiol mewn iaith syml er mwyn sicrhau bod y gwylwyr yn deall beth sy'n digwydd? Ceisiwch osgoi acronymau, ynganwch dermau'n llawn – ni fydd pawb yn gwybod beth maen nhw'n ei olygu.

- **Ar ba blatfform y byddan nhw'n rhannu eu flog amgylcheddol?**

Mae llawer o wefannau cynnal fideos ar-lein yn ogystal â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i helpu eich dysgwyr i rannu eu flog amgylcheddol. Bydd pa blatfform y maen nhw'n ei ddefnyddio'n pennu, i raddau, arddull eu flog amgylcheddol a'u darpar gynulleidfa.

Er enghraifft, diben Facebook yw cysylltu pobl â'u ffrindiau a rhwydweithiau teuluol. Mae Twitter, ar y llaw arall, yn cael ei ddefnyddio i rannu syniadau, pynciau, gwybodaeth amser real, a newyddion sy'n trendio. Defnyddir Instagram i rannu lluniau a fideos. Gofynnwch i'ch dysgwyr ystyried pa blatfform fydd fwyaf addas i rannu eu flog amgylcheddol?

## Wrth ffilmio

- **Adrodd y stori**
  - Mae'n bwysig bod gwylwyr yn deall beth sy'n digwydd, pam mae'n digwydd a beth sy'n arwyddocaol amdano.
  - Anogwch eich dysgwyr i fynd â'u gwylwyr ar daith gyda nhw a disgrifio'r hyn y maen nhw'n ei weld a'i deimlo. Er mwyn rhoi ymdeimlad o agosatrwydd ac uniongyrchedd i'w ffilm, dylen nhw ymateb yn naturiol i'r hyn sy'n digwydd a'r hyn y maen nhw'n ei weld.
  - Eglurwch nad oes angen iddyn nhw fod o flaen y camera bob amser. Mae'n iawn iddyn nhw siarad dros luniau.
  - Os yw eich dysgwyr yn sôn am rywbeth nad yw yn y clip, gallan nhw ffilmio saethiad ar wahân ohono a'i olygu yn nes ymlaen.
  - Os yw'n briodol, dylai dysgwyr fewnosod testun i roi disgrifiad byr, cyflwyno'r siaradwr neu'r lleoliad. Bydd yn arbed amser i'ch dysgwyr ac yn helpu'r naratif.
  - A fydd eu flog amgylcheddol yn cael ei ffilmio yn Gymraeg neu'n Saesneg? A fydd angen iddyn nhw greu isdeitlau dwyieithog i gadw at Bolisi Iaith Gymraeg eu lleoliad neu i wneud y flog amgylcheddol yn fwy hygyrch? Mae gan YouTube wasanaeth capsiynau awtomatig ar gyfer fideos wedi'u huwchlwytho sy'n ei gwneud yn gyflym ac yn hawdd dewis isdeitlau Saesneg.

- **Amseru – cadwch y flog yn fyr a chryno**

Dylai dysgwyr drin pob clip fel cofnod dyddiadur. Os yw eu ffilm yn adrodd stori dros gyfnod o amser, anogwch eich dysgwyr i gadw pob clip yn fyr – uchafswm o 20 eiliad. Rhy hir a bydd gwylwyr yn colli diddordeb. Ni ddylai'r flog amgylcheddol terfynol ar ôl ei olygu bara mwy na 3 munud.

- **Byddwch yn onest**

Yng ngeiriau Forrest Gump "Life is like a box of chocolates. You just don't know what you are going to get." Os yw'r bywyd gwyllt y mae eich dysgwyr yn ceisio ei ffilmio yn swil neu'n marw, dylai eich dysgwyr fod yn barod i rannu eu meddyliau a'u siom. Eu profiadau nhw a'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu ar eu taith wrth greu flog amgylcheddol sy'n cyfrif. Efallai nad ydyn nhw'n hapus am bopeth, ond weithiau'r straeon hyn yw'r rhai gorau.

- **Enw da yn y byd digidol**

Nid yn unig y mae eich dysgwyr yn cynrychioli eu hunain ond hefyd eu lleoliad addysg. Atgoffwch eich dysgwyr y dylen nhw gyflwyno delwedd ar-lein briodol a chadarnhaol o'r ddau. Mae'n hawdd anghofio am yr holl bobl a allai weld eu flog amgylcheddol. Unwaith y bydd rhywbeth yn cael ei bostio neu ei rannu ar-lein, gall fod yno am byth. Dylen nhw ystyried y geiriau y maen nhw'n eu defnyddio a'u cywair ieithyddol.

- **Atgoffwch eich dysgwyr i ymlacio, edrych i mewn i'r camera a mwynhau!**

Efallai y bydd eich dysgwyr yn teimlo ychydig yn hunanymwybodol ac yn lletchwith i ddechrau. Gall cael eich ffilmio fod yn brofiad aneswmyth. Atgoffwch nhw i anadlu, ymlacio a gadael i'w personoliaeth ddisgleirio. Os yw'n bosibl, parwch ddysgwyr gyda'i gilydd, efallai y byddan nhw'n teimlo'n fwy cyfforddus gyda chwmni ac yn adeiladu perthynas dda ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Anogwch eich dysgwyr i edrych yn syth i mewn i'r lens a'i drin fel pe bai'n berson sy'n edrych arnyn nhw. Efallai y byddan nhw'n teimlo'n hunanymwybodol i ddechrau, ond bydd yn edrych yn llawer mwy naturiol pan fyddan nhw'n gwylio'r lluniau.

## Ar ôl ffilmio

- **Golygu**

Bydd angen i'ch dysgwyr olygu eu delweddau crai cyn cyhoeddi neu rannu'r ffilm gyda'r byd. Efallai bod gan y ddyfais y mae eich dysgwyr yn ei defnyddio feddalwedd golygu arni eisoes fel Windows Live Movie Maker neu iMovie os ydyn nhw'n defnyddio Mac. Mae'r rhan fwyaf yn hawdd iawn i'w defnyddio, yn cynnwys nodweddion llusgo a gollwng a byddan nhw'n caniatáu i'ch dysgwyr glipio, cwtogi neu asio fideos gyda'i gilydd. Bydd dysgwyr yn gallu addasu lefelau sain a gall y rhan fwyaf o raglenni lanlwytho'n uniongyrchol i YouTube.

Ein hawgrymiadau ar gyfer golygu:

- Dylai fod gan eich dysgwyr syniad bras o sut maen nhw am i'w flog amgylcheddol gorffenedig edrych cyn iddyn nhw ddechrau golygu. Gallai nodi cynllun neu 'fwrdd stori' cyflym eu helpu i gadw eu nod terfynol mewn golwg.
- Anogwch eich dysgwyr i beidio â dechrau arbrofi gormod gyda nodweddion arbennig fel pontio o un saethiad i'r llall. Bydd eu flog amgylcheddol yn edrych yn llawer mwy proffesiynol os byddan nhw'n croesbylu neu'n pylu i ddu/gwyn yn hytrach na defnyddio effeithiau ffansi.
- Atgoffwch eich dysgwyr i'w gadw'n fyr ac yn gryno. Ni ddylai'r flog amgylcheddol terfynol ar ôl ei olygu bara mwy na 3 munud.

- **Rhannu eu cynnwys**

Unwaith y bydd eich dysgwyr wedi recordio eu flog amgylcheddol anogwch nhw i feddwl am sut maen nhw'n mynd i wneud yn siŵr bod cymaint o bobl â phosibl yn ei wylio. Gallai pob grŵp rannu eu flog amgylcheddol gyda grwpiau eraill. Mae llawer o wefannau cynnal fideos ar-lein i helpu eich dysgwyr i rannu eu flog amgylcheddol. A oes gan eich lleoliad gyfrif a allai bostio'r flog amgylcheddol?

A all eich dysgwyr godi ymwybyddiaeth o'u flog amgylcheddol a'r pwnc a ddewiswyd drwy hyrwyddo'r flog ar y cyfryngau cymdeithasol? Mae ein **Cynllun gweithgaredd - Ymgyrchu dros natur – Rhedeg ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol** yn esbonio beth i'w wneud gam wrth gam.

- **Ymgysylltu â'r gynulleidfa**

Os yw'n briodol, unwaith y byddan nhw wedi uwchlwytho eu flog amgylcheddol, anogwch eich dysgwyr i ymgysylltu â'u cynulleidfa drwy eu hannog i wneud sylwadau. A allan nhw sbarduno dadl neu drafodaeth am y pwnc a ddewiswyd?

Bydd ymgysylltu â'u cynulleidfa, a chael adborth, yn rhoi cipolwg i'ch dysgwyr ar sut mae pobl yn ymateb i'w flog amgylcheddol, ond nid yw sylwadau'r gwyliwr bob amser yn gadarnhaol. Os ydyn nhw'n postio'n gyhoeddus, dylai eich dysgwyr baratoi'n feddyliol ar gyfer adborth negyddol posibl. Gellir ystyried sylwadau negyddol fel adborth adeiladol weithiau, felly os ydynt yn ddilys, dylen nhw ddysgu canolbwyntio arnyn nhw a'u defnyddio i wella eu flogiau. Mae gweld sylwadau negyddol yn anodd ond bydd angen i'ch dysgwyr ddysgu sut i wneud hyn. Gallai ymateb mewn modd negyddol i sylw beirniadol niweidio enw da eich dysgwyr ar-lein. Dylen nhw ddysgu ei anwybyddu a gwrthsefyll yr ysfa i ymateb.

- **Gwerthuso**

Gofynnwch i'ch dysgwyr adolygu a gwerthuso eu flog amgylcheddol gorffenedig. A wnaethon nhw gyflawni eu hamcanion? A allan nhw feddwl am ffyrdd o wneud eu flog amgylcheddol yn well? A oes unrhyw beth y bydden nhw'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf? Pa bwyntiau dysgu allweddol y gallan nhw eu cymryd o'r profiad?

Gofynnwch i'r grwpiau eraill asesu eu flog amgylcheddol yn seiliedig ar y cynnwys a safon y cynhyrchu. Pa adborth adeiladol y gallan nhw ei roi i grŵp arall?

## Cwestiynau allweddol a awgrymir

- Beth yw pwnc eich flog amgylcheddol?
- Sut fyddwch chi'n gwybod a yw eich flog amgylcheddol wedi bod yn llwyddiannus?
- A wnaethoch chi gyflawni eich amcan gwreiddiol?
- Ydych chi wedi cyflwyno delwedd ar-lein gadarnhaol ohonoch chi'ch hun?
- Sut ydych chi wedi sicrhau hyn?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gefnogaeth

- Rhowch rai pynciau awgrymedig i'r dysgwyr eu trafod yn eu flog amgylcheddol a rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir iddyn nhw fel y gallan nhw ganolbwyntio ar y dasg o lunio eu flog amgylcheddol.
- Addysgwyr i gyfarwyddo neu strwythuro'r gweithgaredd.

### Llai o gefnogaeth

- Gallai dysgwyr baratoi flog amgylcheddol dilynol. A yw eu barn am y pwnc wedi newid dros amser? Sut mae'r ardal a arsylwyd ganddyn nhw yn wreiddiol yn edrych yn awr?
- Gan weithredu fel dylanwadwyr natur, gofynnwch i'ch dysgwyr gyfleu neges benodol yn eu flog amgylcheddol. A allan nhw weithio i newid barn pobl ar bwnc penodol a'u hannog i newid eu hymddygiad?

## Gweithgaredd dilynol/estyniad

- Beth wnaeth eich dysgwyr ei arsylwi, ble a phryd? A allan nhw gyfrannu eu canfyddiadau i'w canolfan cofnodion biolegol leol neu brosiect gwyddoniaeth dinasyddion perthnasol i helpu gwyddonwyr i fonitro newidiadau i fywyd gwyllt?

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag: **ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government